Nodyn Briffio

# Adroddiad y Prif Weithredwr – Cyfarfod y Bwrdd, Gorffennaf 2017

## 1. Cyfarfodydd ac Ymweliadau

Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, rwyf wedi ymgymryd â'r cyfarfodydd a'r ymweliadau canlynol:

- **Addysg Iechyd Cymru** – corff newydd yw hwn a sefydlwyd i reoli hyfforddiant a datblygiad yn y GIG – gwnes i gwrdd â'r rheolwr prosiect i rannu gwersi a ddysgwyd o sefydlu CNC.
- **Ymarferwyr Gwelliant Parhaus** – mynychais y sesiwn 'ddiweddaru' ar gyfer ymarferwyr gwelliant parhaus yn Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n parhau i ysgogi prosiectau rhagorol sy'n gwella ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd.
- **Chwaraeon Cymru** – cyfarfod diweddaru rheolaidd gyda Sarah Powell, y Prif Weithredwr.
- **Cyfarfod Nawdd Llywodraeth Cymru** – mae'r rhain yn cael eu cynnal tair gwaith y flwyddyn, ac maent yn canolbwyntio ar ein hadroddiadau perfformiad, ac yn rhoi cyfle i drafod problemau perthnasol.
- **Plantlife** – ymweliad cyfareddol gyda Marian Spain, Prif Weithredwr Plantlife, a chydweithwyr o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a Cyfoeth Naturiol Cymru â dwy 'ddôl y coroni' ger Trefynwy. Y safle cyntaf, New Grove Meadows, yw'r ddôl goroni ar gyfer Sir Fynwy a gerllaw coetir Cyfoeth Naturiol Cymru, tra bod yr ail safle, Wyeswood Common, yn safle derbyn ac adfer arloesol ac yntau wedi bod yn dir amaethyddol masnachol cyfoes cyn i'r Ymddiriedolaeth ei brynu.
- **Diwrnod Teisennau Bychain** – roeddwn i'n falch o gyfrannu teisennau a bobwyd gan y teulu Roberts at ddiwrnod teisennau bychain blynyddol y Gymdeithas Alzheimer, a oedd yn cyd-daro â lansio Cynllun Ymwybyddiaeth Dementia Cyfoeth Naturiol Cymru. Cododd Cyfoeth Naturiol Cymru dros £1,500 i gyd.
- **Sefydliad y Peirianwyr Sifil** – mynychais ginio blynyddol Sefydliad y Peirianwyr Sifil.
- **CoRWM** – cwrddais â Campbell Gemmell, dirprwy gadeirydd CoRWM a chyn-Brif Weithredwr Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban.
- **Multiple Sclerosis Society Cymru** – roeddem yn falch o gwrdd â chydweithwyr o Multiple Sclerosis Society Cymru a derbyn gwobr 'Cyflogwr y Flwyddyn' i gydnabod y gwaith a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn arbennig Mark Sabine, wrth gefnogi Allyn Hawkes wedi iddo gael diagnosis o sglerosis ymledol.

- **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol** – gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru drefnu ymweliad llwyddiannus iawn ar gyfer aelodau'r pwyllgor â Choetir Ysbryd Llynfi ger Maesteg.
- **Natural England** – fel rhan o'n rhaglen drawsnewid, cawsom drafodaeth ddiddorol â thîm trawsnewid Natural England i rannu profiadau a mewnwelediad o ran trawsnewid ac ailstrwythuro.
- **Comisiynydd y Gymraeg** – cyfarfod diweddaru â Meri Hughes i drafod cynnydd yn erbyn y Safonau ac ati.
- **Cynllun llifogydd Crindai** – gwnes i ymweld â chynllun Crindai i archwilio cynnydd. Mae rhai problemau anodd ag adeiladau sy'n ymwneud â'r cynllun y bydd angen eu datrys.
- **Grŵp Is-gangellorion y Prifysgolion** – cwrddais â grŵp yr is-gangellorion i drafod cynnydd â'r platfform tystiolaeth, a fydd yn cael ei gyllido ar y cyd gan brifysgolion, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.
- **Dŵr Cymru Welsh Water** – cyfarfod diweddaru rheolaidd â'r Prif Swyddog Gweithredol Chris Jones.

**Emyr Roberts**
Gorffennaf 2017